O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 268 (Cy. 31)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32a i Gyffordd 32, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed *8 Chwefror 2013*

Yn dod i rym *18 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer — Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32a i Gyffordd 32, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 18 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffyrdd 32a a 32 yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.